**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
**YNYS MÔN 2026**

**Cystadleuaeth 96– Unawd Cerdd Dant 19-25 oed**

**Y Ddwygerdd Agos, Peredur Lynch**

Yn neuaddau'n llenyddiaeth,
Yn nhai gwin yr awen gaeth
Dwy ddawn yn gyfrodedd oedd,
Hwy a asiwyd drwy'r oesoedd.
Dwy hen grefft yn gadwyn gron
A dwy hŷn na chof dynion.

Heb dannau roedd geiriau gynt
Yn weddwon. Mor wag oeddynt.
Roedd i air ei gerddoriaeth,
Roedd ceinciau i'w geiriau'n gaeth.
Ni ddôi gwefr i'r byrddau gwin
O gywydd heb ddeg ewin.

Yn neuaddau'n llenyddiaeth
Newydd win i ni a ddaeth,
Ac i lys Cymreig y wledd
Fe roed yr hen frwdfrydedd
Am fod tafod a nodau
Yma o hyd yn ymwáu.

Yr her o hyd yw parhau
I fynnu'r uchelfannau,
I yngan â'r hen angerdd
I wau'r gainc yn un â'r gerdd,
A hawlio'r wefr fel yr oedd
Drwy asio crefftau'r oesoedd.